

Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.

Rhaid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob un sy'n rheoli'r dogfennau sydd eu hangen ar gyfer achos. Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

Mae trawsgludwr yn derm a ddefnyddir yn y ffurflen hon. Fe'i diffinnir yn rheol 217A o Reolau Cofrestru Tir 2003 ac mae'n cynnwys unigolion a awdurdodwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol neilltuedig yn ymwneud â chofrestru tir ac mae'n cynnwys cyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EM yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein [Siarter Gwybodaeth Bersonol](#).

Os yw mwy nag un awdurdod lleol yn gwasanaethu'r ardal, nodwch yr un y byddwch yn talu'r dreth gyngor neu ardrethi busnes iddo fel rheol.

Rhowch gyfeiriad gan gynnwys cod post (os oes) neu ddisgrifiad arall o'r eiddo, er enghraifft 'tir yn ffinio â 2 Acacia Avenue'.

Rhowch natur y dogfennau sydd eu hangen, gan gynnwys dyddiad(au) a phartïon, os ydynt yn hysbys ac os yw'n briodol. Rhifwch y dogfennau yn olynol.

1	Yr awdurdod lleol sy'n gwasanaethu'r eiddo:
2	Rhif(au) teitl yr eiddo:
3	Eiddo:
4	Rhowch enw(au) llawn a chyfeiriad(au) (gan gynnwys cod post) y sawl sy'n gofyn i'r cofrestrydd fynnu bod rhywun arall yn cyflwyno dogfen(nau) at ddibenion achos gerbron y cofrestrydd:
5	Rhowch enw llawn a chyfeiriad (gan gynnwys cod post) y sawl sy'n rheoli'r dogfennau sydd eu hangen ar gyfer yr achos:
6	Dogfennau sydd eu hangen:
7	Rhowch y rheswm (rhesymau) pam y mae angen y dogfennau ar gyfer yr achos:

Os yw trawsgludwr yn gweithredu ar ran y sawl sy'n gwneud y cais, rhaid i'r trawsgludwr hwnnw lofnodi. Os nad yw trawsgludwr yn gweithredu, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y cais (ac os oes mwy nag un pob un ohonynt) lofnodi.

8	Llofnod y sawl sy'n gwneud y cais neu'r trawsgludwr: _____
	Dyddiad:

RHYBUDD

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosp ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 05/18